OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1742

# Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2008

## RHAN 5

Amrywiol

**Rhoi marc adnabod newydd yn lle hen un**

**16.**—(1) Ni chaiff neb, oni chaiff ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru, roi marc adnabod newydd yn lle'r marc adnabod a atodir neu a roddir o dan y Gorchymyn hwn oni bai—

(a) bod y marc wedi dod yn amhosibl ei ddarllen;

(b) bod y marc wedi ei ddileu am resymau lles; neu

(c) bod y marc wedi mynd ar goll.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n rhoi marc adnabod newydd yn lle hen un naill ai—

(a) defnyddio marc adnabod union debyg; neu

(b) defnyddio marc adnabod newydd a chroes-gyfeirio'r marc adnabod newydd â'r marc adnabod gwreiddiol yn y cofnod a gedwir o dan erthygl 5.